22.07.2021

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Miwsig y Merched – blas o tiwns Maes B

Uchafbwynt blwyddyn llawer o fandiau ac artistiaid Cymraeg yw cael perfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ac wrth i ni hiraethu am hwyl ac adloniant Maes B eto eleni wedi'r siom na allai'r Brifwyl gael ei chynnal, bydd S4C yn ceisio dod ag ychydig o'r adloniant hwnnw i'ch ystafell fyw.

Bydd **Maes B: Merched yn Gwneud Miwsig** ar 6 Awst yn rhaglen fydd yn dathlu cyfraniad merched i fiwsig Cymru.

Wedi'i ffilmio yn warws yr Eisteddfod yn Llanybydder, gyda holl drysorau a thrugareddau'r Brifwyl yn gefnlen trawiadol, bydd perfformiadau gan Adwaith, Thallo, Eadyth, Hana Lili, Gwenno Morgan a Casi Wyn. Warws yr Eisteddfod yw'r storfa sy'n gartref i holl brops eiconic maes yr Ŵyl, fel y llythrennau mawr coch sy'n sillafu 'Eisteddfod', a holl wrthrychau Maes B. A dyma hefyd lle maen nhw'n cael eu creu.

Sian Eleri, un o gyflwynwyr BBC Radio 1 a BBC Radio Cymru fydd yn cyflwyno'r cyfan.

Prosiect ar y cyd rhwng Maes B a Clwb Ifor Bach yw Merched yn Gwneud Miwsig. Cyn i'r Pandemig fwrw roedd y prosiect yma'n dod â merched ifanc ar draws Cymru at ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd gan rhai o fenywod blaenllaw'r sin cerddorol yng Nghymru. Ymysg y gweithdai a gynhaliwyd oedd cyfansoddi gyda Heledd o HMS Morris, sesiwn offerynnau gyda'r band Adwaith, gweithdy DJio gyda Anya Bowcott a sesiwn gelf gyda Ani Saunders a Elin Meredydd.

Yn sgîl llwyddiant y gweithdai hyn, mae'r brand wedi tyfu ac yn cynnig platfform i fenywod sy'n creu cerddoriaeth yng Nghymru.

Roedd y profiad o berfformio ar y rhaglen yn un go arbennig i Elin Edwards, prif leisydd y grŵp Thallo: "Mae Merched yn Gwneud Miwsig yn arddangosiad gwych o dalent greadigol merched Cymraeg. Mae'n hwb mawr gweld gwaith creadigol ac ysbrydoledig yn llifo drwy Gymru ar hyn o bryd. Dwi erioed wedi perfformio mewn lleoliad mor unigryw o'r blaen ac roedd yn fraint Cael fy newis fel perfformiwr ymysg artistiaid eraill anhygoel."

Ychwanega Sian Eleri, cyflwynydd y rhaglen: **"**Mae Merched yn Gwneud Miwsig yn brosiect hynod o gyffrous ac mae gallu bod yn rhan o'r rhaglen hon sy'n rhoi llwyfan i'r cerddorion talentog yma yn wych. Gyda chymaint o gerddoriaeth wych yn dod allan o Gymru ar hyn o bryd, mae'n wych gallu rhoi sylw i'r menywod yma yn enwedig mewn lleoliad mor anhygoel."

## Maes B: Merched yn Gwneud Miwsig

**Dydd Gwener 6 Awst 9.30**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Cynhyrchiadau'r Eisteddfod ar gyfer S4C**

22.07.2021

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Women making music – a taste of Maes B

The highlight of the year for many Welsh bands and artists is performing at the National Eisteddfod. As we yearn for the fun and entertainment of Maes B again this year after the disappointment of postponing the festival, S4C will bring some of that entertainment straight to your living room.

**Maes B: Merched yn Gwneud Miwsig** (Maes B: Women Making Music) on 6 August will celebrate the contribution of women to Welsh music. Filmed in the Eisteddfod's warehouse in Llanybydder, with all the festival's treasures as a backdrop, there will be performances by Adwaith, Thallo, Eadyth, Hana Lili, Gwenno Morgan a Casi Wyn. The warehouse is a treasure trove of the Maes's and Maes B's eye-catching props, including the iconic red letters spelling 'Eisteddfod'. This is also where they are created.

The programme will be presented by BBC Radio 1 and BBC Radio Cymru presenter Sian Eleri.

Merched yn Gwneud Miwsig is a joint project between Maes B and Clwb Ifor Bach. Prior to the Pandemic, this project brought together young women across Wales to learn new skills from some of the leading women of the Welsh music scene. Workshops included composing with Heledd from HMS Morris, an instrumental session with the band Adwaith, a DJing workshop with Anya Bowcott and an art session with Ani Saunders and Elin Meredydd.

Due to the success of these workshops, the band has grown and offers a platform for female music makers in Wales.

The experience of performing on the programme was a special one for Elin Edwards, lead vocalist for the group Thallo: "Merched yn Gwneud Miwsig is a great showcase of Welsh women's creative talent. It is a great boost to see creative and inspirational work flowing throught Wales at the moment. I have never performed in such a unique setting before and it was a privilege to be chosen as a performer among amazing artists."

Sian Eleri, the programme's presenter adds: "Merched yn Gwneud Miwsig is an exciting project, and being able to be part of this programme that gives these talented musicians a platform is fantastic. With so much great music coming out of Wales right now, it's great to be able to pay attention to these women especially in such an amazing setting."

**Maes B: Merched yn Gwneud Miwsig**
**Friday, 6 August 9.30 pm**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Cynhyrchiadau'r Eisteddfod production for S4C**